

LLYWODRAETH CYMRU

GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANSANFFRAID GLAN CONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (FFYRDD YMYL) 2019 (AMRYWIO) 20--

SYMUD YMAITH PWLL ARAFU YN HIRWAUN PONDS
GOSOD PRIFFORDD NEWYDD O'R A465(T) Y TYNNWYD EI STATWS FEL
CEFNFFORDD
GOSOD SYSTEM GYLCHU NEWYDD YN SWANSEA ROAD/MERTHYR ROAD
CAEL GWARED Â'R SYSTEM GYLCHU YN BRYNIAU ROAD
MÂN DDIWYGIADAU I BONT A MYNEDFA'R GRONFA DDŴR

DATGANIAD ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

Yn dilyn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mawrth/Ebrill 2018, roedd Gorchmynion yr A465 Deuoli Adran 5 a 6 Dowlais Top i Hirwaun (a elwir y Cynllun a Gyhoeddwyd yn y ddogfen hon) wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2019. Gwnaed ymdrech barhaus i chwilio am ddewisiadau i ychwanegu gwerth i'r Cynllun.

Mae'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed yn awdurdodi cau priffyrdd presennol (gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau a llwybrau beiciau), adeiladu a gwella priffyrdd newydd, cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd preifat newydd.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys manylion Amrywiad arfaethedig i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed mewn perthynas â:

1. Symud ymaith pwll arafu yn Hirwaun Ponds.
2. Gosod priffordd newydd o'r A465(T) y tynnwyd ei statws fel cefnffordd.
3. Mân ddiwygiadau i Gylchfan Croesbychan.
4. Gosod system gylchu newydd yn Swansea Road / Merthyr Road.
5. Cael gwared â'r system gylchu yn Bryniau Road.
6. Mân ddiwygiadau i bont a mynedfa'r gronfa ddŵr.

Ni wneir unrhyw newid i'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) a wnaed sy'n awdurdodi llwybr y brif gefnffordd newydd, y ffyrdd ymuno ac ymadael, y ffyrdd cysylltu â'r ffyrdd y tynnwyd eu statws fel cefnffyrdd. Bydd rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn ei gwneud yn ofynnol i brynu tir ychwanegol a/neu hawliau ychwanegol dros dir, ac mae'r manylion yn cael eu cyhoeddi mewn Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol cysylltiedig a gaiff ei anfon at bob buddiant yr effeithir arno yn uniongyrchol. Caiff newidiadau arfaethedig mân iawn eraill i'r tir a gymerir, a wneir ar gais tiffeddianwyr yn bennaf, eu caffael drwy gytundeb neu, o dan rai

amgylchiadau, fel adeiladwaith hwylustod, ac nid yw'n ofynnol awdurdodi hynny neu amrywio'r Gorchymynion a wnaed o ran hynny.

Nodir isod fanylion y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys sut y maent yn cymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed, ac maent wedi eu dangos yn goch ar y planiau safle amgaeedig. Bydd y Gorchymyn Amrywio drafft, os caiff ei wneud, yn diwygio Atodlenni 1, 2, 3, 4, 6, 7, 10 a 12 ac yn rhoi yn lle Blaniau Safle 1, 2, 3, 4, 6, 7, 10 a 12 y Planiau Safle amgaeedig 1A, 2A, 3A, 4A, 6A, 7A, 10A a 12A o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl ac yn awdurdodi'r newidiadau. Nid yw'r Gorchymyn Amrywio drafft yn effeithio ar yr Atodlenni a'r Planiau Safle sy'n dwyn y rhifau 5, 8, 9, 11, 13, 14 a 15 o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed ac maent yn parhau heb eu newid.

Ymwelwyd â thirfeddianwyr a phobl y byddai'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat er mwyn eu hysbysu am y cynigion cyn cyhoeddi'r Gorchymyn Amrywio drafft hwn. Gwahoddir gwrthwynebiadau a sylwadau ar y Gorchymyn Amrywio drafft amgaeedig a fyddai'n awdurdodi'r newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed ar gyfer y Cynllun a Gyhoeddwyd fel y nodir yn yr hysbysiad cyhoeddus amgaeedig.

1. ADLEOLI PWLL ARAFU O HIRWAUN PONDS I HEN Ffordd Y RHIGOS (Plan Safle 1A a 2A)

Y cynnig yw adleoli'r pwll arafu yn Hirwaun Ponds i fan i'r gorllewin o gyffordd arfaethedig Hirwaun, gan redeg y gyfochrog â Hen Ffordd y Rhigos fel y dangosir ar Blau Safle 2A.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Adfer y Mynedfeydd Preifat Presennol cyf 1/1 ac 1/2 sydd i'w cau a dileu'r symbol o Atodlen 1 a Phlan Safle 1A, a dileu'r Mynedfeydd Preifat Newydd cyf 1/1a ac 1/2a o Atodlen 1 a Phlan Safle 1A o blau a adneuwyd y Gorchymyn Amrywio oherwydd nid oes eu hangen mwyach.

Adfer y Fynedfa Breifat Bresennol cyf 2/1 sydd i'w chau a dileu'r symbol o Atodlen 2 a Phlan Safle 2A, a dileu'r Fynedfa Breifat Newydd cyf 2/1a o Atodlen 2 a Phlan Safle 2A o blau a adneuwyd y Gorchymyn Amrywio oherwydd nid oes ei hangen mwyach.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Bydd adleoli'r pwll arafu yn golygu y gall y trefniant presennol o ran y fynedfa breifat barhau oherwydd ni fydd gwaith yn digwydd yn y lleoliad hwn mwyach; bydd hawliau mynediad yn parhau yn ystod y cyfnod adeiladu. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, tirfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

2. PRIFFORDD NEWYDD (Plan Safle 2A a 3A)

Y cynnig yw ychwanegu priffordd newydd o'r A465(T) y tynnwyd ei statws fel cefnffordd i ddarparu mynediad amgen i faes chwarae Hirwaun Welfare. Mae hyn yn dileu'r gofyniad i greu mynedfa arfaethedig i faes chwarae Hirwaun Welfare oddi ar Tower Road fel y dangosir ar Blau Safle 2A.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Ychwanegu mynedfa newydd i'r briffordd oddi ar yr A465(T) y tynnwyd ei statws fel cefnffordd cyf. 2/N i Atodlen 2 fel y dangosir ar Blau Safle 2A a chyf. 3/R i Atodlen 3 fel y dangosir ar Blau Safle 3A o blau a adnewwyd y Gorchymyn Amrywio. Mae hyn yn disodli'r angen i greu mynedfeydd newydd ar hyd Tower Road ac i mewn i faes chwarae Hirwaun Welfare. (Mae cyfeirnodau 2/4a, 2/5a a 2/5d wedi eu dileu o Atodlen 2 a Phlan Safle 2A).

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Mae'r newidiadau uchod i'r briffordd newydd yn newidiadau sylweddol ychwanegol i'r cynigion hynny a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, tirfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

3. MÂN DDIWYGIADAU I GYLCHFAN CROESBYCHAN

O ganlyniad i'r newidiadau o ran y gofynion ar gyfer modelu twf traffig ar ôl cyhoeddi'r Gorchymynion drafft, bu'n rhaid cynyddu maint y gylchfan i sicrhau bod digon o le ar gyfer y cerbydau y rhagwelir y byddant yn defnyddio'r gyffordd.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Mae'r priffyrdd newydd y rhoddwyd y cyfeirnodau 4/V, 4/K, 4/M a 4/L iddynt a'r mynedfeydd preifat newydd y rhoddwyd y cyfeirnodau 4/6a, 4/6b a 4/11a iddynt wedi eu hailalinio fel y dangosir yn Atodlen 4 ac ar Blau Safle 4A.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Mae'r newidiadau uchod i'r briffordd newydd yn newidiadau sylweddol ychwanegol i'r cynigion hynny a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, tirfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

4. GOSOD CYLCHFAN YCHWANEGOL I'R DWYRAIN O DANBONT ARFAETHEDIG CYFFORDD BAVERSTOCK AC AILALINIO'R LLWYBR BEICIAU/LLWYBR TROED/LLWYBR CEFFYLAU (Plan Safle 6A a 7A)

Y cynnig yw gosod cylchfan ychwanegol i'r dwyrain o Gyffordd arfaethedig Baverstock i gysylltu'r B4276 Merthyr Road â'r A4102 Swansea Road a ailaliniwyd.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Bydd angen mân ddiwygiad i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl i newid llinell y briffordd newydd sy'n arwain o gangen ddwyreiniol y gylchfan ddeheuol wrth danbont arfaethedig Cyffordd Baverstock, i gyfeiriad y dwyrain wrth ddynesu at y B4276 Merthyr Road presennol lle mae cynnig i osod system gylchu newydd (ychwanegu cyfeirnod 6/K i Atodlen 6 a Phlan Safle 6/A) i gysylltu â'r B4276 Merthyr Road presennol (ychwanegu at gyf. 6/N i Atodlen 6 a Phlan Safle 6A) gyda Swansea Road ddiwygiedig (cyfeirnod ychwanegol 6/J a 6/M yn Atodlen 6 ac ar Blau Safle 6A ac yn parhau ar Blau Safle 7A cyf. 7/A yn Atodlen 7). Diwygio lleoliad y llwybr ceffylau/llwybr beiciau/llwybr troed arfaethedig cyfeirnod 6/L yn Atodlen 6 ac ar Blau Safle 6A a chyf 7/B yn Atodlen 7 ac ar Blau Safle 7A o blau a adnewwyd y Gorchymyn Amrywio. Caiff

darn ychydig yn hirach o'r B4276 Merthyr Road ei gau er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer y system gylchu (cyfeirnod 6/S3 yn Atodlen 6 fel y dangosir ar Blau Safle 6A).

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Mae'r newidiadau uchod i naill ai briffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beiciau, llwybrau ceffylau neu waith cysylltu yn newidiadau sylweddol ychwanegol i'r cynigion hynny a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, talfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

5. SYMUD YMAITH CYLCHFAN, SY'N CYSYLLTU BRYNIAU ROAD A'R FFORDD A ELWIR YN LLEOL THE ICI, A THREFNIADAU MYNEDIAD DIWYGIEDIG I UNED 33 O YSTAD DDIWYDIANNOL PANT. (Plan Safle 10A)

Y cynnig yw symud ymaith y gylchfan ar waelod Bryniau Road a gosod Cyffordd T yn ei lle. I grynhoi, y newidiadau o'r Cynllun a Gyhoeddwyd yw:

- Gosod Cyffordd T yn lle cylchfan.
- Ailalinio'r ffyrdd a'r llwybrau troed cysylltiol.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Bydd angen diwygio'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Yn bennaf bydd y newid yn ymwneud â symud ymaith y gylchfan, a fyddai'n golygu ailalinio'r ffordd sy'n cysylltu o'r gorllewin, gan gysylltu â'r gylchfan i'r gogledd o Ysgol Uwchradd Pen y Dre a ddangosir fel priffordd newydd cyfeirnod 10/C a 10/H, gyda mân newidiadau i'r gyffordd â'r fynedfa breifat i Dan y Castell Farm (cyf 10/K) sydd oll wedi eu dangos ar Blau Safle 10A o blau a adnewydd y Gorchymyn Amrywio. Ailalinio Bryniau Road fel y dangosir fel priffordd newydd cyfeirnod 10/J. Mae'r trefniadau mynediad presennol i Uned 33, Dependable Packaging a Screwfix etc. yn Ystad Ddiwydiannol Pant wedi eu hailalinio fel y dangosir ar Blau Safle 10A ac mae cyfeirnodau ar gyfer Priffordd newydd 10/G a chyfeirnodau 10/4, 10/3a a 10/4a ar gyfer cau ac ail-greu mynedfeydd preifat newydd wedi eu hychwanegu i Atodlen 10. Ailalinio'r llwybr troed/llwybr ceffylau (cyf 10/A) o'r gylchfan a ailaliniwyd i'r gogledd o Ysgol Uwchradd Pen y Dre cyf 10/B gan gysylltu â'r llwybr ceffylau presennol BR103/1. Bydd cyfeirnodau priffordd newydd 10/C, 10/G, 10/J, 10/K a 10/H yn cael eu hychwanegu i Atodlen 10.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Ni ystyrir bod y newidiadau uchod i naill ai briffyrdd, llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau beiciau, mynedfeydd preifat neu waith cysylltu yn newidiadau sylweddol ychwanegol i'r cynigion hynny a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, talfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

6. MÂN ADLEOLI'R BONT DROED ARFAETHEDIG YN NOWLAIS (Plan Safle 12A)

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

O ganlyniad i fân adleoli'r bont droed arfaethedig a datblygiad parhaus y dyluniad, bu'n rhaid cynnig newidiadau i'r traciau cyffiniol sy'n gysylltiedig â'r bont droed arfaethedig fel y dangosir ar blân a adneuwyd y Gorchymyn Amrywio.

Llwybrau Troed a Phont Droed

Y cynigion yw gwneud mân ddiwygiadau i llwybrau troed a phont droed yn:

- Pont Droed/Llwybr Troed Arfaethedig (ychwanegwyd y cyfeirnod priffordd newydd 12/A i Atodlen 12 a Phlan Safle 12A).
- Mae mân ddiwygiadau i briffordd newydd cyfeirnod 12/B (llwybr troed) i gysylltu â'r newidiadau sy'n ofynnol yn 12/A ac i gysylltu â'r llwybr troed presennol 102/2.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWDYD

Ni ystyrir bod y newidiadau uchod i naill ai briffyrdd, llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu waith cysylltu yn newidiadau sylweddol i'r cynigion hynny a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Trafodwyd y newidiadau â'r Awdurdod Lleol a, lle y bo'n briodol, tirlfeddianwyr a/neu fuddiolwyr, ac ystyrir eu bod yn ddewis amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.